# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2247 |
| Committee | Cyd-bwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) |
| Date | 26/04/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Mr. Alun Williams (Co-Optee)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Alison Rawshaw (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Sarah Dixon (Swyddog)<br>Sarah Jones (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| | Leeann Turner (Secretary) |
| | Gwasanaethau Democrataidd (Notify) |
| | Pob Cynghorydd (Notify) |
| | Louise Bishop (Notify) |
| | Sean Scannell (Notify) |
| | Richard Crook (Notify) |
| | Rhian Hayden (Notify) |
| | Michelle Morris (Notify) |
| | Steve Berry (Swyddog) |
| | Andrea Jones (Swyddog) |

| Item ID | 2905 |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 2906 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, G.L. Davies, P. Edwards, L. Elias a D. Wilkshire.<br><br>Tim Baxter – Aelod Cyfetholedig<br><br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |

| Item ID | 2907 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 2908 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion y Cyd-bwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2020.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at eitem 5 ar dudalen 6 y cofnodion a dywedodd y dylai'r sylw am Covid-19 fod yn y cofnodion cyn y pennawd yn ymwneud â'r Ddalen Weithredu – 2 Rhagfyr 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4743 |
| Item Title | Dalen Weithredu – 8 Hydref 2020 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Cyd-bwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4744 |
| Item Title | Gwybodaeth Diogelu Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg – 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi gwybodaeth am berfformiad diogelu a dadansoddiad o Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Addysg rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Rhagfyr 2020.<br><br>**<u>Gwasanaethau Cymdeithasol</u>**<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant (Diogelu) am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau yn gwybodaeth Perfformiad Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Yng nghyswllt fformat yr adroddiad, awgrymodd y Cadeirydd newidiadau i gynllun yr adroddiad, sef pan mae'n cyfeirio at graffiau a thablau yn yr atodiad e.e. Ffigur 1.1, y caiff y graff neu dabl ei dynnu i'r adroddiad o'r atodiad, ac yng nghyswllt paragraff 6.2.3 – Amddiffyn Plant, awgrymodd y Cadeirydd newid y geiriad o "dim achos consyrn" i' "daw'r ffigurau hyn o fewn y lefelau disgwyliedig o gofio'r sefyllfa bresennol". Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai'n ystyried y pwyntiau hyn ac yn edrych ar newid fformat yr adroddiad ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y ffaith mai'r heddlu sy'n atgyfeirio mwyaf i Gwasanaethau Cymdeithasol a gofynnodd sut y caiff atgyfeiriadau eu monitro i sicrhau y dylent gael eu hatgyfeirio mewn gwirionedd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod yn edrych yn barhaus ar y maes hwn a dan Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd, sef cynllun gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i'r Ditectif Ringyll fod yn rhan o'r gwasanaeth IAA, rhan o'r rôl honno yw beirniadu a rhoi sicrwydd ansawdd i'r PPN (y dull atgyfeirio a ddefnyddir gan yr heddlu). Mae polisïau'r heddlu ar wneud atgyfeiriadau yn wahanol i rai'r Awdurdod Lleol ac felly pan elwir yr heddlu i eiddo a bod plant yn bresennol, dan eu polisïau a'u gweithdrefnau mae'n ddyletswydd arnynt i gyfeirio'r digwyddiad hwnnw i Gofal Cymdeithasol Plant a fyddai wedyn yn penderfynu os yw'r atgyfeiriad angen ymyriad statudol neu gefnogaeth lefel isel. Maent yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o fewn yr heddlu i geisio cefnogi'r heddlu i wneud dyfarniadau proffesiynol am p'un ai i wneud atgyfeiriad i ofal cymdeithasol statudol neu ystyried os y byddai gwasanaethau ataliol haen is yn fwy addas ac yn gweithio tuag at bwynt lle |

mae'r ddau faes gwasanaeth yn hapus gyda'r dull gweithredu.

Dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn rhoi lefel ychwanegol o sicrwydd i Aelodau a chroesawodd ymgyfraniad yr heddlu yn y broses IAA i gryfhau cydweithio rhwng y ddau faes. Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod yn awr wedi symud i fodel Hyb a fu'n llwyddiannus iawn yng nghyswllt partneriaid tebyg i Iechyd ac Addysg mewn cael yr un lefel o gefnogaeth i ddarparu gwybodaeth yn gyflym i'r gwasanaeth IAA i'w galluogi i wneud y penderfyniad cywir ar yr adeg gywir. Byddai'r Ditectif Ringyll yn cynnal gwiriadau ar bobl o ddiddordeb neu bobl y gall yr IAA fod angen gwybodaeth ychwanegol arnynt. Gall cydweithwyr yn y maes Iechyd wneud yr un fath yng nghyswllt plant ac unrhyw bryderon am addysg ac mae Addysg hefyd yn ymuno i fod yn rhan o'r broses a theimlai fod hon yn sefyllfa gadarnhaol iawn wrth symud ymlaen.

Holodd Aelod am nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sy'n pontio i Gwasanaethau Oedolion a mynegodd bryderon am bresenoldeb uwch swyddogion heddlu mewn cyfarfodydd rhianta corfforaethol. Fel y rhiant corfforaethol, mae dyletswydd i roi cefnogaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn cyfarfodydd disgyblaeth ysgolion a gyda'r pandemig yn llacio, teimlai y gall fod cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd angen mwy o gefnogaeth mewn ysgolion i'w hatal rhag cael eu gwahardd yn barhaol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod Ffigur 2.4 yr Adroddiad Perfformiad yn dangos ystod oedran y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae'r ystod oedran yn cynrychioli'r nifer isaf o blant ar y Gofrestr. Yr ystod oedran 10 i 15 oedd y grŵp uchaf gyda 14 o ferched a 10 o fechgyn, ac i'r bobl ifanc yn eu harddegau hynny sydd ar fin dod yn oedolion, gobeithiai y byddai'r risgiau wedi eu datrys cyn iddynt ddod yn oedolion. Roedd yn derbyn sylw'r Aelod am bontio gan fod pontio i Wasanaethau Oedolion yn hanfodol ar gyfer pob grŵp ond yn arbennig felly blant sy'n derbyn gofal gydag anghenion a phroblemau iechyd meddwl eithaf cymhleth. Mae dwy ferch yn yr ystod oedran 16 i 18 yn chwarter 3 ar y Gofrestr ac fel rhan o'r Cynllun Amddiffyn Plant, byddid yn rhoi ystyriaeth i p'un a fyddai'r anghenion cymorth hynny yn parhau i fywyd fel oedolion.

Yng nghyswllt rhianta corfforaethol, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod hwn yn bwynt dilys i'w godi a lle mae plant yn destun unrhyw brosesau mewnol o fewn ysgolion roedd Mentoriaid Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Cydlynydd Addysg a hefyd Reolwr Diogelu mewn Addysg a byddai'n mynd â'r pwynt hwn yn ôl i uwch reolwyr yng nghyswllt gwasanaeth Addysg i gynghori p'un ai oedd angen iddynt fynychu'r cyfarfodydd hynny yng nghyswllt plant Gwasanaethau Cymdeithasol ac ystyried os oes materion capasiti yn ymwneud â phresenoldeb swyddogion yn y cyfarfodydd hynny.

Yng nghyswllt materion sy'n codi wrth i blant ddychwelyd i'r ysgol, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth yr Aelodau y penodwyd dau weithiwr cymdeithasol ychwanegol mewn ysgolion a bod yn awr gyfanswm o bedwar. Eu rôl yw ystyried anghenion plant a theuluoedd ar gam cynnar ac mae hynny'n cynnwys plant a theuluoedd a fu'n dioddef drwy'r pandemig Covid. Mae bod â'r gallu hwnnw o fewn ysgolion ar gyfer plant a theuluoedd i

| | |
|---|---|
| | siarad gyda gweithwyr cymdeithasol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau, yna mae'r ymyriadau hynny yn rhoi canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.<br><br>Cododd Aelod bryderon am broblemau gydag ymddygiad rhieni yn iard yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Bu achosion o rieni'n siarad mewn modd anaddas gyda'u plant ifanc yn iard yr ysgol, digwyddiadau traffig, bygythiadau a seibr-fwlio ac yn y blaen. Mae rhai ysgolion yn awr yn codi arwyddion i sicrhau fod rhieni yn gwybod am y polisi dim goddefgarwch. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth mai ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i ffurfio barn ar y ffordd orau i drin ymddygiad o'r math hwnnw. Os oedd un rhiant yn bygwth rhiant arall, yna gallai hynny fod yn fater i'r heddlu ac os teimlai unrhyw un fod plant yn dioddef fel canlyniad i ymddygiad gwael gan riant neu'n cael eu dal yn y canol mewn anghydfod rhwng rhieni, yna mae'n fusnes i bawb wneud atgyfeiriad i Gwasanaethau Cymdeithasol. Pan edrychid yn fanwl ar yr atgyfeiriad hwnnw, gallai fod mai cefnogaeth lefel isel neu atgyfeiriad i asiantaethau eraill fyddai'r canlyniad.<br><br>Cododd Aelod arall bryderon am y nifer uwch o ddigwyddiadau yn a thu allan i ysgolion a theimlai fod angen protocol, gyda chanllawiau i ysgolion eu dilyn, rhwng yr ysgol a Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyswllt digwyddiadau difrifol tu allan i ysgolion. Ategodd y Rheolwr Gwasanaeth y gallai unrhyw un oedd yn gweld rhywbeth neu'n teimlo'n anghysurus neu'n bryderus am rywbeth wneud atgyfeiriad i Gwasanaethau Cymdeithasol. Os yw ysgolion yn tystio iaith wael ac ymddygiad gwael, teimlai nad oedd unrhyw reswm pam na allai'r ysgol siarad gyda'r rhiant am iaith ac ymddygiad derbyniol y tu mewn a thu allan i safle'r ysgol. Yn achos ceir yn achosi problemau Iechyd a Diogelwch, dylai digwyddiadau gael eu hadrodd drwy Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.<br><br>Gan fod y broblem hon ar draws dwy Gyfarwyddiaeth, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y gall canllawiau fod ar gael y gellid eu cryfhau o amgylch y pwyntiau a godwyd.<br><br>Yng nghyswllt rheoli traffig mewn ysgolion, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes fod grŵp penodol sy'n rheoli a monitro problemau a phan mae ysgolion yn rhoi adroddiad am broblemau traffig, dyrennir wardeiniaid i ysgolion ar sail blaenoriaeth. Gwyddai fod monitro ac adrodd yn cael ei wneud ac mae ysgolion yn trin problemau yn uniongyrchol gyda rhieni Dywedodd fod rhestr flaenoriaeth o waith y bwriedir ei wneud ym mhob un o'r ysgolion i lacio rhai o'r problemau traffig. Dywedodd yr Aelod mai dim ond un o'r problemau a godwyd oedd cam-drin traffig ac oherwydd y pandemig roedd clwydi ysgol yn cael eu cau yn gynnar yn y bore a theimlai fod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n digwydd tu allan i glwydi ysgol.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Strategol Gwella Addysg fod ysgolion mewn sefyllfa dda i edrych ar anghenion plant mewn gosodiad cyd-destun ac y gallai godi'r pwyntiau hyn ar gam-drin posibl, ar-lein, llafar neu draffig ac yn y |

| | |
|---|---|
| | blaen a phan edrychir ar ddigwyddiadau o'r fath drwy lens ehangach, gallai hyn alluogi cydweithwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r effaith ar y plentyn.<br><br>**<u>Gwasanaethau Addysg</u>**<br><br>Siaradodd y Rheolwr Strategol Gwella Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau o fewn yr wybodaeth am Berfformiad Addysg. Hysbysodd Aelodau na fu'n bosibl cyflwyno'r wybodaeth arferol a'r data a gesglir fel arfer drwy ysgolion, gan fod ysgolion wedi ymateb i heriau'r pandemig. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd i Aelodau y cafodd ysgolion eu hatgoffa am yr angen i adrodd data gyda'r disgwyliad y caiff gwybodaeth ei chyflwyno i'r Pwyllgor. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud yng nghyswllt datblygu system ar-lein a chyn y pandemig, prynwyd model opsiynau 'fy mhryderon' sy'n rhan o'r System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS) a fyddai'n galluogi ysgolion i roi adroddiad rheolaidd a chadw data ar sail electronig, a hysbysodd Aelodau am y bwriad i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol agos.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1: sef derbyn y dull gweithredu a'r wybodaeth a fanylir yn yr adroddiad. |

| Item ID | 4745 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Diogelu Oedolion o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i roi gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad Diogelu ynghylch Gwasanaethau Oedolion rhwng 1 Ebrill 202 a 31 Mawrth 2021.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Diogelu Oedolion am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Dywedodd y bu nifer o newidiadau mewn Diogelu Oedolion dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynwyd gweithdrefnau newydd i Gymru gyfan ar Ddiogelu ym mis Ebrill 2020 ac mae'r gweithdrefnau newydd yn cefnogi'r unigolion i fod yng nghanol y broses ddiogelu ac i gefnogi'r deilliannau a ddymunant a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Gan y bu newid sylweddol yn y broses, bu newid hefyd yn yr adroddiadau a'r data a gasglwyd ac eleni nid yw hyn yn dangos dadansoddiad o ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol i edrych ar gymariaethau.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at oedolion bregus a holodd os y byddai cysylltiadau i bartneriaid answyddogol tebyg i grwpiau cymunedol a sefydlwyd yn y pandemig i ddosbarthu parseli bwyd ac yn y blaen i parhau i sicrhau na anghofid am unrhyw oedolion bregus. Canmolodd y Rheolwr Diogelu Oedolion waith y grwpiau cymunedol drwy gydol y pandemig a gwyddai fod |

| | |
|---|---|
| | IAA a Cefnogi Pobl wedi cymryd rhan yn y grwpiau cymunedol hyn a chytunodd fod angen cadw'r cysylltiadau hyn wrth symud ymlaen. Teimlai ei bod yn bwysig i Diogelu Oedolion gysylltu gyda'r grwpiau cymunedol i godi ymwybyddiaeth a hefyd i siarad gydag unigolion oedd yn derbyn y gwasanaeth, gan eu bod yn fregus tu hwnt a gan fod y data yn dangos fod nifer y pobl sy'n hunan-atgyfeirio am Ddiogelu Oedolion yn isel iawn, a bod hyn yn rhywbeth sydd angen edrych arno gyda rhaglen hygyrch i unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth ac yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol helpu Diogelu Oedolion i ddeall pwy yw'r oedolion mwyaf bregus a sut i'w cyrraedd.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Chomisiynu, yng nghyswllt cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, gwneir gwaith helaeth gydag awdurdodau lleol eraill ac mae'r tîm yn diweddaru gwefannau yn barhaus Teimlai mai rhan o'r cyfnod adfer fyddai cryfhau'r blociau adeiladu sydd eisoes yn eu lle a byddai cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn ffocws clir fel rhan o'r cynllun busnes yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod parthed dim ond adrodd ar y prif gategori o gam-driniaeth, eglurodd y Rheolwr Diogelu Oedolion gyda'r data a adroddwyd i'r Pwyllgor mai dim ond ar y prif gategori cam-driniaeth y gallent adrodd. Wrth gwblhau ffurflen dyletswydd i adrodd i Gwasanaethau Cymdeithasol, gellid ticio nifer o gategorïau o gam-driniaeth ond dim ond ar y prif gategori cam-driniaeth y byddai Diogelu Oedolion yn adrodd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad fel y'i derbyniwyd. |